WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Ffioedd 2015

Mae hwn yn gynllun ffioedd a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Cyflwynir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

# Cynnwys


## Cynllun Ffioedd

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Rhestr o ddeddfiadau | 6 |
| Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd | 7 |
| Codi ffioedd | 10 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24 | 11 |
| Rhestr o ddeddfiadau sy’n pennu pryd y gall a phryd y mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd | 12 |
| Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2015 | 13 |

# Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Mae'r Cynllun Ffioedd, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, yn darparu'r sail y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei ddefnyddio wrth godi ffioedd.

2 Am y tro cyntaf erioed, roedd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru (ar gyfer 2015-2016) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2014, yn cynnwys y graddfeydd ffioedd arfaethedig a nodir erbyn hyn yn y cynllun hwn. Mae'r dull newydd hwn yn adlewyrchu penderfyniad Swyddfa Archwilio Cymru i wella ymhellach dryloywder ac i ddangos y cysylltiad uniongyrchol rhwng ein sylfaen gostau a'i heffaith ar gyfraddau ffioedd o ganlyniad.

3 Mae'r Bwrdd wedi gwrando'n ofalus ar adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'n hagenda ar effeithlonrwydd cost a'r cyfraddau ffioedd yr ydym yn eu gosod. Wrth geisio cael cefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ein Hamcangyfrif ar gyfer 2015-16, dyma a gynigiwyd yn yr Amcangyfrif:

- Gostyngiad 1.5 y cant mewn termau real mewn graddfeydd ffioedd – gan adlewyrchu rhewi mewn termau arian parod.
- Cyrraedd targed gwerth £800,000 o safbwynt pwysau ariannol mewn perthynas â chyflogau a phensiynau staff, TAW a chwyddiant, drwy arbedion ac effeithlonrwydd mewnol er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar ffioedd.
- Sefydlu Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd er mwyn parhau i ddarparu arbedion yn y tymor hwy yn ogystal â'r gostyngiad cronnus o 20 y cant mewn termau real i'n costau ers 2009-10.
- O 2015-2016, ariannu gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol drwy'r hyn a godwn ar Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy ffioedd a godir ar gyrff sy'n cymryd rhan. Drwy hyn, rydym yn ceisio annog mwy i gymryd rhan yn wirfoddol yn ogystal â symleiddio pethau ar gyfer y rhai sy'n cyfranogi'n orfodol.

4 Byddwn yn gwella tryloywder ein costau ffioedd ymhellach drwy drafod â chyrff a archwilir gyfansoddiad y ffi o ran y timau a roddir i weithio ar archwiliadau.

5 Mae'r Cynllun Ffioedd yn adlewyrchu'r Amcangyfrif a gymeradwyir ac yn gyffredinol, mae'n nodi:

- Y deddfiadau sy'n rheoli'r modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd archwilio.
- Y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi amrediad ffioedd ar gyfer meysydd gwaith archwilio penodol; neu
  - cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nad yw graddfeydd ffioedd yn eu cwmpasu.

6 Yn gyffredinol, ariennir 73 y cant o'n gwariant drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac yn sgil grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith asesu gwelliannu. Darperir y 27 y cant sy'n weddill yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru drwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwariant a'n cyllid wedi'i chynnwys yn yr amcanion blynyddol o incwm a gwariant sydd wedi'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

# Rhestr o ddeddfiadau

7 Mae Atodiad 2 yn rhestru'r deddfiadau sy'n pennu pryd y gall a phryd y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd.

# Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

8 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cynhyrchu elw ar ffioedd. Yn unol â deddfwriaeth, mae'n ofynnol nad yw'r ffioedd yr ydym yn eu codi yn uwch na'r gost lawn o arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn berthnasol iddi. Gosodir cyfraddau ein ffioedd ar lefel fel y gellir adennill y gost yn llawn.

9 Rydym wedi cyfrifo'r graddfeydd ffioedd drwy ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd ar gyfer amcangyfrif o fewnbwn archwilio ar gyfer bwrdd nodweddiadol a archwilir yn y sectorau isod (Atodiad 3). Mae hyn ar sail adennill dim mwy na chost lawn y gwaith archwilio a wnaed. Bydd y ffioedd ar gyfer corff unigol a archwilir yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond disgwylir y byddent fel arfer yn disgyn o fewn y graddfeydd ffioedd (lle y bo'n berthnasol). Bydd ein cyfarwyddwyr ymgysylltu yn trafod ffioedd unigol a'u cyfansoddiad â phob corff a archwilir.

10 Mae yna densiwn rhwng y gwaith o ddarparu cyrff a archwilir â ffi a delir ymlaen llaw am y gwaith a fydd yn cael ei wneud ar archwiliadau penodol a chael patrwm sy'n ddigon hyblyg i gydnabod amrywiannau anochel. Mae ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n gwariant, amcangyfrif o'r gymysgedd sgiliau ac amcangyfrif o nifer y dyddiau sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith. Pan fo'r gwaith gofynnol yn sylweddol uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, o ganlyniad i gymhlethdodau a wynebwyd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.

11 Yn amlwg, mae ein trefniadau codi ffioedd yn gymhleth, yn anhylaw a chostus i'w gweinyddu ac fe'u hystyrir gan rai yn ddim mwy na chylchredeg cyllid o fewn y sector cyhoeddus. Mae ein rhanddeiliaid yn dweud wrthym eu bod am i ni ganfod model symlach ar gyfer adennill costau archwilio cyhoeddus, a byddwn yn ymchwilio ymhellach i fecanweithiau amgen wrth drafod gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn croesawu argymhelliad[1] y pwyllgor y dylid diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) er mwyn egluro gofynion codi ffioedd archwilio ac yn y cyfamser bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i gyd-ddealltwriaeth â sefydliadau am yr hyn sy'n ofynnol o ran codi ffioedd, yn amodol ar unrhyw gyngor cyfreithiol perthnasol.

12 Ym mis Medi 2014, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar ein graddfeydd ffioedd ar gyfer 2015-2016, ar sail ymrwymiad y Bwrdd i beidio â chynyddu graddfeydd ffioedd. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi'r canlynol:

- bod rhewi graddfeydd ffioedd yn cael ei groesawu i raddau helaeth yng nghyd-destun y pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus;
- bod y gwaith rheoli costau ac arbedion a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gydnabod;
- bod yna alw am fwy o dryloywder mewn perthynas â chostau ffioedd;

1 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Tachwedd 2014 ar Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16.

- bod angen mwy o gymesuredd mewn perthynas â risg a maint y corff a archwilir; a
- disgwylir effeithlonrwydd ac arloesedd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau er mwyn gostwng costau archwilio yn y dyfodol.

13 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth hwn ac yn ymateb drwy ei Gynllun Ffioedd a thrwy ein fframwaith ar gyfer cynllunio busnes.

14 Mae Arddangosyn 1 yn nodi cyfraddau ffioedd fesul awr ar gyfer staff archwilio sy'n adlewyrchu costau uniongyrchol a chyfran ddyledus o orbenion. Archwiliwyd y model costio gan archwilwyr allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

Arddangosyn 1: Cyfraddau Ffioedd ar gyfer staff archwilio

| Graddfa | Graddfa fesul awr (£ yr awr) |
|---|---|
| Cyfarwyddwr/Arweinydd Ymgysylltu | 162 |
| Rheolwr Archwilio | 111 |
| Arweinydd Archwilio Perfformiad | 93 |
| Arweinydd Tîm Archwilio Ariannol | 75 |
| Archwilydd Perfformiad | 65 |
| Archwilydd Ariannol | 56 |
| Hyfforddeion Archwilio | 45 |

15 Mae graddfeydd ffioedd ar gyfer archwiliadau ariannol 2014-15 ac archwiliadau ac asesiadau gwella 2015-16 wedi'u darparu yn Atodiad 3 mewn perthynas â gwaith a gynhaliwyd mewn awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Darperir graddfeydd ffioedd ar wahân mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

16 Mae graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith ar gyfer archwilwyr hefyd, i asesu faint o waith archwilio sy'n angenrheidiol a'r ffi i'w godi am y gwaith hwnnw ar gyfer corff penodol a archwilir.

17 Mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru bennu graddfeydd ffioedd ar gyfer:

- gwaith sy'n gysylltiedig ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

18 Cyfrifir amcangyfrif o ffioedd archwilio cyrff a archwilir nad ydynt wedi'u cynnwys dan ofynion statudol ar gyfer graddfeydd ffioedd yn un ffordd â'r rhai sydd wedi'u cynnwys – hynny yw, drwy ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddwyd yn y Cynllun Ffioedd hwn gydag amcangyfrif o gymysgedd y tîm a'r oriau o fewnbwn gofynnol ar gyfer yr archwiliad.

19 Mae archwilwyr yn gwneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn drwy ddefnyddio cyfraddau ffioedd ac maent yn adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

20 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano, ac eithrio i'r graddau y mae graddfeydd ffioedd, lle y bo'n berthnasol, yn rheoleiddio'r swm a godir (neu yn achos y gwaith a wneir dan gytundebau cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau yn ôl y telerau a gytunwyd). Os ymddengys wedi hynny i Swyddfa Archwilio Cymru bod y gwaith dan sylw mewn archwiliad penodol yn amrywio'n sylweddol i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, gall Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd sy'n wahanol i'r hyn a nodwyd yn wreiddiol.

21 Yn achos darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw'r swm dan sylw yn uwch na chost lawn darparu'r gwasanaeth. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn perthynas â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith dan sylw.

22 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, codir ffioedd ar gyrff a archwilir yn ogystal â chostau staff Swyddfa Archwilio Cymru.

23 Pan fo cyllid yn cael ei ddarparu drwy Amcangyfrif, gall Swyddfa Archwilio Cymru roi cymhorthdal ar y ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, am y cyfnod pontio, yn unol â'r gymeradwyaeth a roddwyd.

# Codi Ffioedd

24 Cytunir ar drefniadau codi ffioedd â chyrff a archwilir a gallant gynnwys costau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol dan yr amgylchiadau.

25 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu anfonebau Swyddfa Archwilio Cymru o fewn eu perfformiad targed ar gyfer taliadau credydwyr, fel arfer 10 niwrnod yn y sector cyhoeddus. Gallem godi tâl am gostau gweinyddol wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

26 Ar ôl cwblhau aseiniad archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol o gyflawni'r aseiniad o'i gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi sy'n uwch na'r gost ac, ar y llaw arall, gallem godi tâl ychwanegol pan nad yw'r ffi'n ddigonol. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a ffioedd ychwanegol mewn ffordd a fydd yn sicrhau cyn lleied o gostau gweinyddol â phosibl, e.e. drwy eu gosod yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd ar gyfer agweddau eraill ar weithgareddau archwilio.

# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn ar gyfer adran 24

1 Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.

2 Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol –

a rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi o danynt;

b pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;

c pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;

ch pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.

3 Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill –

a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol; a

b darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

4 O ran y cynllun –

a rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;

b caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac

c rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

5 Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan –

a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.

6 Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

7 Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

8 Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# Rhestr o ddeddfiadau sy'n pennu pryd y gall a phryd y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd

| Natur y gwaith | Deddfiadau statudol |
|---|---|
| **Gall Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw cyfrifon llywodraeth leol) | Adran 23(2) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a gyflawnir dan gytundeb | Adran 23(3)(a)-(c) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | Adran 23(3)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad eithriadol o gorff llywodraeth leol | Adran 37(8) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Ymarferion paru data | Adran 64F(A1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Mae'n rhaid pennu graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| **Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | Adran 27 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Mae'n rhaid pennu graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B Deddf Llywodraeth Cymru 1998 | Adran 23(4)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol ac ymgymryd ag astudiaethau dan gytundeb â chyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a)-(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Mae'n rhaid pennu graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol |
| **Darpariaethau eraill ar gyfer codi ffioedd** | |
| Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n rhaid i gyfanswm y ffi fod yn gyfanswm rhesymol a gytunwyd rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru. | Adran 45 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Adran 41A Deddf Addysg 1997 |

# Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2015

## Awdurdodau unedol

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon awdurdodau unedol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 100 | 119 | 140 | 160 | 140 |
| 200 | 143 | 168 | 193 | 168 |
| 300 | 159 | 187 | 215 | 187 |
| 400 | 172 | 202 | 232 | 202 |
| 500 | 183 | 215 | 246 | 215 |
| 600 | 192 | 225 | 259 | 225 |
| 700 | 200 | 235 | 269 | 235 |
| 800 | 207 | 243 | 279 | 243 |
| 900 | 213 | 251 | 288 | 251 |
| 1,000 | 220 | 258 | 296 | 258 |
| 1,100 | 225 | 265 | 304 | 265 |
| 1,200 | 230 | 271 | 311 | 271 |


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwiliadau ac asesiadau gwella mewn awdurdodau unedol

| Holl awdurdodau unedol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 94 | 112 | 130 | 117 |

## Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 100 | 213 | 252 | 291 | 257 |
| 200 | 237 | 280 | 323 | 285 |
| 300 | 253 | 299 | 345 | 304 |
| 400 | 266 | 314 | 362 | 319 |
| 500 | 276 | 327 | 377 | 331 |
| 600 | 285 | 337 | 389 | 342 |
| 700 | 293 | 347 | 400 | 352 |
| 800 | 301 | 355 | 410 | 360 |
| 900 | 307 | 363 | 419 | 368 |
| 1,000 | 313 | 370 | 427 | 375 |
| 1,100 | 319 | 377 | 434 | 382 |
| 1,200 | 324 | 383 | 442 | 388 |

### Graff o raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



# Awdurdodau tân ac achub

## Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon awdurdodau tân ac achub

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 20 | 35 | 41 | 47 | 41 |
| 40 | 42 | 49 | 57 | 49 |
| 60 | 47 | 55 | 63 | 55 |
| 80 | 50 | 59 | 68 | 59 |
| 100 | 53 | 63 | 72 | 63 |


## Graddfa ffioedd ar gyfer archwiliadau ac asesiadau gwella mewn awdurdodau tân ac achub

| Holl awdurdodau tân ac achub | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 10 | 15 | 20 | 16 |

## Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 20 | 45 | 56 | 67 | 57 |
| 40 | 52 | 64 | 77 | 65 |
| 60 | 57 | 70 | 83 | 71 |
| 80 | 60 | 74 | 88 | 75 |
| 100 | 63 | 78 | 92 | 79 |

### Graff o raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



# Awdurdodau parciau cenedlaethol

## Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon awdurdodau parciau cenedlaethol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 2 | 22 | 25 | 29 | 25 |
| 4 | 26 | 31 | 35 | 31 |
| 6 | 29 | 34 | 39 | 34 |
| 8 | 31 | 37 | 42 | 37 |
| 10 | 33 | 39 | 45 | 39 |


## Graddfa ffioedd ar gyfer archwiliadau ac asesiadau gwella mewn awdurdodau parciau cenedlaethol

| Holl awdurdodau parciau cenedlaethol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 5 | 7 | 9 | 7 |

## Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 2 | 27 | 32 | 38 | 33 |
| 4 | 31 | 38 | 44 | 38 |
| 6 | 34 | 41 | 48 | 41 |
| 8 | 36 | 44 | 51 | 44 |
| 10 | 39 | 46 | 54 | 46 |

### Graff o raddfa cyfanswm ffioedd awdurdodau parciau cenedlaethol




# Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

Mae archwilwyr yn archwilio dau gorff statudol ym maes yr heddlu – y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC) a'r Prif Gwnstabl (CC). Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

**Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid**

| Gwariant gros cyfunol comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid £000,000 | Amrediad ffioedd cyfunol comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
| 50 | 61 | 70 | 79 | 76 |
| 100 | 71 | 83 | 94 | 89 |
| 150 | 79 | 91 | 104 | 97 |
| 200 | 84 | 98 | 111 | 104 |
| 250 | 89 | 103 | 118 | 109 |
| 300 | 93 | 108 | 123 | 114 |
| 350 | 96 | 112 | 128 | 118 |

**Graff o raddfa ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid**



# Cynghorau tref a chymuned

Mae cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant o hyd at £1 filiwn yn cael eu harchwilio ar sail sicrwydd cyfyngedig. Mae ffioedd am yr archwiliadau hyn yn amrywio yn unol â throsiant blynyddol.

O dan amgylchiadau lle bo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd, a chodir ffioedd ychwanegol yn gymesur â'r gwaith ychwanegol dan sylw.

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant o hyd at £1,000,000

| Incwm neu wariant blynyddol (mae ffioedd yn daladwy ar sail pa bynnag un yw'r uchaf bob blwyddyn) | Math o archwiliad | Ffi arfaethedig | Ffi'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---:|---:|
| £Dim – £99 | Sylfaenol | £dim | £30 |
| £100 – £1,000 | Sylfaenol | £30 | £30 |
| £1,001 – £5,000 | Sylfaenol | £80 | £80 |
| £5,001 – £10,000 | Sylfaenol | £175 | £175 |
| £10,001 – £30,000 | Sylfaenol | £205 | £205 |
| £30,001 – £60,000 | Sylfaenol | £295 | £295 |
| £60,001 – £100,000 | Sylfaenol | £350 | £350 |
| £100,001 – £200,000 | Sylfaenol | £415 | £415 |
| £200,001 – £300,000 | Canolradd | £650 | £650 |
| £300,001 – £400,000 | Canolradd | £650 | £650 |
| £400,001 – £500,000 | Canolradd | £650 | £650 |
| £500,001 – £750,000 | Canolradd | £920 | £920 |
| £750,001 – £1,000,000 | Canolradd | £920 | £920 |

# Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

## Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

| Holl gronfeydd pensiwn | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 30 | 40 | 50 | 40 |

## Archwiliadau o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol

Ar wahân i'r mathau hynny o gyrff y rhagnodwyd graddfeydd ffioedd ar eu cyfer, mae nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol. Ar gyfer archwiliadau o'r cyrff hyn, caiff dull cynllunio archwiliadau sy'n seiliedig ar sero ei ddefnyddio o hyd, a chaiff y gofynion o ran adnoddau eu trosi'n ffioedd sy'n uniongyrchol seiliedig ar gostau cyflawni'r gwaith.

# Amcangyfrif o'r cymysgedd staff ar gyfer gwaith ardystio grantiau

| Graddfa staff | Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill % |
|---|---|---|
| Arweinydd ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr yr archwiliad | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd tîm | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/swyddog dan hyfforddiant | 77 i 71 | 87 i 81 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- EUR01 Cronfeydd Strwythurol
- HOU03 Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (awdurdodau nad ydynt yn trosglwyddo stoc)
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

# Y Fenter Twyll Genedlaethol

Er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru bob dwy flynedd. Cynhelir y Fenter yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu wallus. Bu'n adnodd effeithiol iawn i ganfod twyll a gordaliadau a sicrhau arbedion i bwrs y wlad. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth dros £26 miliwn yng Nghymru ac £1.17 biliwn ledled y DU.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter gan ddefnyddio ei bwerau statudol ar gyfer paru data dan ran 3A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nodir isod y ffioedd statudol ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Mae'r ffi ar gyfer y Fenter yn seiliedig ar nifer ac amrediad y setiau data craidd perthnasol.

| Math o gorff | Ffi 2015-16 £ | Ffi 2014-15 £ | Ffi flaenorol (2012-13) £ |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Unedol | Dim | 3,650 | 3,650 |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl | Dim | 1,000 | 1,000 |
| Awdurdod tân ac achub | Dim | 1,000 | 1,000 |
| Ymddiriedolaeth y GIG | Dim | 1,000 | 1,000 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | Dim | 1,000 | 3,650 |
| Arall – gwirfoddol | Dim | Yn amodol ar gytundeb â phob corff | Yn amodol ar gytundeb â phob corff |

O 2015-16, pennir graddfa ffioedd o £dim ar gyfer yr holl gyrff sy'n cymryd rhan ac yn hytrach bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adennill y costau drwy daliad gan Gronfa Gyfunol Cymru fel y cymeradwywyd drwy'r Amcangyfrif. Y rhesymeg sydd wrth wraidd hyn yw annog mwy o sefydliadau anorfodol i gymryd rhan yn wirfoddol, yn unol â dyheadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Ar y cyd â dyheadau'r bwrdd i sicrhau trefn ariannu symlach, ac yn unol â hynny, pennir graddfa ffioedd o £dim ar sefydliadau sy'n cymryd rhan yn orfodol hefyd. Bydd hyn yn helpu i atal unrhyw ddryswch ac yn rhoi neges glir o ran y costau o gymryd rhan yn y Fenter. Felly, o hyn ymlaen, ni fydd y Fenter yn cael ei hariannu drwy godi ffioedd.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk